**Rhif:** **WG53895**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Dyfroedd ymdrochi: Ymgynghoriad ynghylch pennu Bae Ffont-y-Gari, y Rhws (Bro Morgannwg) yn ddŵr ymdrochi ac estyn y tymor ymdrochi yng Nghymru.

Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-369-6

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ymatebion i'r Ymgynghoriad cyfeirnod WG53895:

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch dwy elfen yn ymwneud â dŵr ymdrochi: cynnig i ddynodi Bae Ffont-y-Gari, y Rhws yn ddŵr ymdrochi o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, ac a ddylid estyn y tymor ymdrochi cenedlaethol yng Nghymru bythefnos i ddechrau ar 1 Mai yn hytrach na 15 Mai. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 15 Rhagfyr 2025 a 26 Ionawr 2026.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cefnogi'r cynnig i ddynodi Bae Ffont-y-Gari, y Rhws ar gyfer tymor ymdrochi 2026 ac i ddarparu unrhyw dystiolaeth neu resymeg. Ystyrir y cynnig hwn o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 gan fod y rheoliadau hyn mewn grym tan 31 Mawrth 2026.

Gofynnwyd iddynt hefyd a oeddent yn cytuno â'r cynnig i estyn y tymor ymdrochi cenedlaethol i ddechrau ar 1 Mai yn lle 15 Mai. Ystyrir hyn yng nghyd-destun Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2025 a fydd yn dod i rym yng Nghymru ar 1 Ebrill 2026.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn ac yn egluro'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried. Nid yw'n gwneud sylwadau ar gyflwyniadau unigol.

## Cyd-destun dynodi dŵr ymdrochi

Diben y Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi yw diogelu iechyd y cyhoedd drwy fonitro a dosbarthu ansawdd dyfroedd ymdrochi. Caiff dyfroedd ymdrochi dynodedig eu monitro gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ystod pob tymor ymdrochi ar gyfer *Escherichia coli* ac *Enterococci'r coluddion*, dau facteria sy'n peri risg i iechyd pobl.

Ar ddiwedd pob tymor ymdrochi, caiff safleoedd eu dosbarthu yn ôl eu canlyniadau monitro fel rhagorol, da, digonol, neu wael. Drwy gydol y tymor, mae CNC yn cyhoeddi canlyniadau monitro ansawdd dyfroedd ymdrochi ar ei wefan. Mae hyn yn galluogi ymdrochwyr i ddeall ansawdd y dŵr y gallent ddod ar ei draws, gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch lle i nofio, a nodi ardaloedd lle mae angen gwella ansawdd y dŵr.

## Cyd-destun yr ymgynghoriad ynghylch y tymor ymdrochi:

Ar ôl i'r Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2025 ddod i rym, bydd gan Weinidogion Cymru yr awdurdod i bennu tymor ymdrochi cenedlaethol neu dymor ymdrochi ar gyfer safleoedd penodol.

## Camau Gweithredu Angenrheidiol

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

### Manylion cyswllt

Y Gangen Dŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: water@gov.wales

### Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o'r ymatebion a holl ddogfennau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Dynodi Dyfroedd Ymdrochi 2026 | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... 4
**Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad:** .......... 4
Bae Ffont-y-Gari .......... 5
Materion cysylltiedig eraill .......... 5
Barn y cyhoedd ar estyn y tymor ymdrochi .......... 6
Barn ar yr effaith ar y Gymraeg .......... 6
**Ymateb y Llywodraeth** .......... 7
Y Camau Nesaf .......... 7
Atodiad A - Rhestr o'r Sefydliadau a Ymatebodd .......... 8

### Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch dynodi Bae Ffont-y-Gari, y Rhws yn ddŵr ymdrochi ac ynghylch estyn y tymor ymdrochi cenedlaethol o 1 Mai i 30 Medi (sydd fel arfer yn dechrau ar 15 Mai). Mae hefyd yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf y bwriedir eu cymryd.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r dynodiad arfaethedig, i roi tystiolaeth ategol, ac i gynnig eu barn ar estyn y tymor ymdrochi.

### Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad:

Cafwyd 115 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O blith y rhain, daeth 113 i law drwy'r porth ar-lein a daeth 2 ymateb arall i law yn uniongyrchol drwy e-bost.

| **Ymatebwr** | **Nifer yr Ymatebion** |
|---|---|
| Unigolion | 109 |
| Rheoleiddwyr | 1 |
| Cwmnïau dŵr | 1 |
| Cyngor Tref/ Cynghorydd lleol/ Cyngor Cymuned | 1 |
| Cyrff Proffesiynol | |
| Clybiau a sefydliadau lleol sy'n defnyddio'r dyfroedd | 1 |
| Corff amgylcheddol anllywodraethol | 2 |
| **Cyfanswm** | **115** |

*Ceir rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad A

Nododd dadansoddiad thematig y themâu cyffredin canlynol:

- Cefnogaeth gyhoeddus gref o blaid dynodi Bae Ffont-y-Gari.
- Caiff ei ddefnyddio'n helaeth at ddibenion hamdden drwy gydol y flwyddyn
- Manteision o ran iechyd y cyhoedd, diogelwch ac ansawdd dŵr
- Galwadau am fonitro gwell neu fonitro drwy gydol y flwyddyn
- Mân bryderon ynghylch mynediad a seilwaith
- Cefnogaeth eang o blaid estyn y tymor ymdrochi
- Dim effeithiau arwyddocaol o ran y Gymraeg; ffafriaeth at arwyddion dwyieithog

<u>Bae Ffont-y-Gari</u>

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod tystiolaeth yr ymgynghoriad yn adlewyrchu'r defnydd gwirioneddol o Fae Ffont-y-Gari yn gywir. Ystyriwyd bod canfyddiadau'r arolwg yn cyd-fynd yn dda â phrofiad lleol, gan gynnwys ymdrochi rheolaidd yn ystod yr haf, grwpiau ymdrochi drwy gydol y flwyddyn, gweithgareddau Clwb Achubwyr Bywyd y Rhws, a defnydd cyson gan drigolion ac ymwelwyr o'r parc carafanau cyfagos.

Nododd yr ymatebwyr fod pwyntiau mynediad sefydledig, arwyddion clir, a defnydd cymunedol helaeth yn cynnig cefnogaeth bellach o blaid y dynodiad.

Dim ond un ymatebydd a oedd yn gwrthwynebu'r dynodiad yn glir, gan gyfeirio at faterion mynediad a diogelwch, a mynegodd un arall bryderon ynghylch y cynnydd mewn carthffosiaeth, ond nid oedd yn gwrthwynebu’r cynnig yn gyffredinol; nid oedd y sylwadau hyn yn newid y dystiolaeth gref o ddefnydd mynych a pharhaus.

Mae'r ymatebion yn creu darlun cydlynol, cyson, gyda chefnogaeth gadarn, o weithgarwch helaeth a rheolaidd ymhlith ymdrochwyr yn ystod y tymor ymdrochi. Mae'r sylfaen dystiolaeth yn cadarnhau bod y safle'n bodloni'r maen prawf rheoleiddiol ar gyfer dynodi a bod canfyddiadau'r ymgynghoriad yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn y lleoliad yn gywir.

<u>Materion cysylltiedig eraill</u>

Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr godi unrhyw faterion ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a drafodwyd eisoes mewn cwestiynau cynharach, gan nodi "dim" yn aml neu gynnig cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Ymhlith y rhai a gyflwynodd sylwadau pellach, daeth sawl thema i'r amlwg. Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith bod ymdrochi a gweithgareddau hamdden ehangach ar y dŵr yn digwydd drwy gydol y flwyddyn, a gwnaethant annog Lywodraeth Cymru i ystyried adlewyrchu'r defnydd hwn mewn trefniadau monitro yn y dyfodol. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr fod ansawdd dŵr yn effeithio ar ddefnyddwyr eraill y dyfroedd, nid yn unig nofwyr ond hefyd syrffwyr, padlfyrddwyr, caiacwyr ac achubwyr bywyd syrffio, ac y dylid eu cydnabod o fewn y cyd-destun polisi a rheolaeth amgylcheddol ehangach.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch ansawdd dŵr ar hyd rhannau o arfordir De Cymru, a galwodd nifer o'r ymatebwyr am fwy o fonitro neu brosesau monitro mwy cadarn i amddiffyn iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd morol. Tynnodd sylwadau penodol sylw at bresenoldeb dau ased sy'n eiddo i gwmni dŵr ger Bae Ffont-y-Gari, a nodwyd nad oes unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch a yw'r asedau hyn yn cael unrhyw effaith ar ansawdd dŵr ar y safle.

Cododd nifer o'r ymatebwyr faterion safle-benodol, gan gynnwys creigiau llithrig, stepiau peryglus, a diddordeb mewn gwella neu estyn rheiliau. Soniwyd hefyd am faterion ymarferol — megis diffyg biniau a phroblemau sbwriel cysylltiedig.

At ei gilydd, mae'r sylwadau hyn yn atgyfnerthu diddordeb ehangach y cyhoedd mewn sicrhau monitro effeithiol, gwella mesurau diogelwch, a chryfhau prosesau cynnal a chadw amgylcheddol.

Barn y cyhoedd ar estyn y tymor ymdrochi

Roedd cefnogaeth glir a sylweddol o blaid estyn y tymor ymdrochi cenedlaethol i ddechrau ar 1 Mai. Dim ond un ymatebydd a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig, a mynegwyd ansicrwydd gan nifer bach. Nododd yr ymatebwyr fod llawer o weithgareddau dŵr yn digwydd cyn canol mis Mai, gan gynnwys nofio yn y môr, ymdrochi mewn dŵr oer, syrffio a chwaraeon padlo, a hynny'n aml oherwydd tywydd cynnes cynnar, patrymau tymhorol newidiol, a chyfranogiad cynyddol drwy gydol y flwyddyn. Teimlai llawer fod ymestyn y tymor yn adlewyrchu'n fwy cywir y modd y mae dyfroedd arfordirol yn cael eu defnyddio ac yn cynnig manteision ychwanegol o ran iechyd y cyhoedd drwy fonitro cynharach a gwybodaeth gliriach.

Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn cefnogi'r newid fel cam cadarnhaol a allai, yn y dyfodol, fod yn rhan o drefniadau monitro ehangach neu fwy parhaus. Nododd rhai ymatebwyr ystyriaethau gweithredol, megis darpariaeth achubwyr bywyd neu amserlenni samplu. Roedd y rhai a oedd yn ansicr ynghylch y cynnig yn bennaf am gael eglurhad ynghylch goblygiadau ymarferol, megis y rheolau o ran mynediad i gŵn, yn hytrach na mynegi gwrthwynebiad llwyr.

Roedd yr ymateb cyffredinol yn dangos consensws cryf bod estyn y tymor ymdrochi yn briodol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyd-fynd â'r patrymau presennol o ran defnyddio dŵr.

Mynegwyd pryderon ynghylch a yw'r amleddau samplu presennol a'r capasiti samplu cyffredinol yn ddigonol i sicrhau canlyniadau cynrychioliadol a dibynadwy, yn ogystal â'r modd y gallai unrhyw newidiadau i'r tymor ymdrochi ddylanwadu ar ddosbarthiadau dyfroedd ymdrochi. Nodwyd hefyd y byddai angen i unrhyw estyniad gyd-fynd â gofynion rheoliadol ehangach, gan gynnwys trwyddedau asedau, metrigau perfformiad a chyllid cysylltiedig.

Barn ar yr effaith ar y Gymraeg

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.  Ymhlith y rhai a gyflwynodd sylwadau, dywedodd y mwyafrif na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith. Un farn gyffredin oedd y dylid darparu arwyddion a gwybodaeth ddwyieithog, gan gefnogi gweledeedd y Gymraeg heb roi defnyddwyr Saesneg eu hiaith dan anfantais. Roedd nifer bach o'r ymatebwyr o blaid hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o dreftadaeth leol, a dim ond ychydig oedd yn teimlo y gallai darpariaeth ddwyieithog fod yn anghyfleus neu'n gostus. Ar y cyfan, ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol, a cheir potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol cymedrol drwy gyfathrebu dwyieithog.

**Ymateb y Llywodraeth**

Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid dynodi Bae Ffont-y-Gari yn cael ei wneud o dan y Rheoliadau presennol. Hynny yw, Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, gan fod y rheoliadau hyn mewn grym tan 31 Mawrth 2026.

Wrth ystyried a ddylid dynodi dyfroedd ymdrochi, mae Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru asesu a ddisgwylir nifer mawr o ymdrochwyr. Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan dystiolaeth arolygon o ddefnydd cyfredol, safbwyntiau a ddarparwyd drwy ymgynghoriadau cyhoeddus, ynghyd ag ystyriaeth o batrymau defnydd hanesyddol, y seilwaith sydd ar gael, ac unrhyw fesurau a fwriadwyd i hyrwyddo ymdrochi. Mae pob safle arfaethedig wedi cael ei asesu yn ôl ei rinweddau ei hun yn unol â'r meini prawf hyn.

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at faterion y tu allan i gwmpas y Rheoliadau, yn ymwneud â phryderon amgylcheddol ehangach, ansawdd dŵr, a materion diogelwch penodol i'r safle. Er bod y materion hyn yn bwysig, maent yn dod o fewn fframweithiau deddfwriaethol a rheoliadol eraill, nad effeithir arnynt gan y broses dynodi dyfroedd ymdrochi.

Mae tystiolaeth yr ymgynghoriad yn darparu digon o gefnogaeth bod Bae Ffont-y-Gari, y Rhws, Bro Morgannwg yn denu nifer mawr o ymdrochwyr o fewn ystyr y Rheoliadau. Felly mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu dynodi'r safle yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2026.

Ystyriwyd trefniadau'r tymor ymdrochi ar wahân, yng nghyd-destun Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2025, a fydd yn dod i rym yng Nghymru ar 1 Ebrill 2026. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gefnogaeth gref i ymestyn dechrau tymor ymdrochi Cymru i 1 Mai, gyda mwyafrif yr ymatebwyr o blaid hynny. Roedd y rhesymau a roddwyd yn adlewyrchu patrymau sefydledig o ran defnyddio dyfroedd arfordirol. Ar y sail hon, mae Gweinidogion Cymru wedi dod i'r casgliad bod tymor ymdrochi sy'n rhedeg o 1 Mai i 30 Medi yn gymesur, yn gyfiawn, ac wedi'i gefnogi gan y dystiolaeth.

<u>Y Camau Nesaf</u>

Bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am y penderfyniad i ddynodi Bae Ffont-y-Gari yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2026, a byddant yn gofyn i CNC baratoi'r proffil dŵr ymdrochi gofynnol. Bydd CNC hefyd yn sefydlu rhaglen fonitro ar gyfer y safle, a bydd gwaith samplu yn dechrau o fis Mai 2026.

Bydd y proffil dŵr ymdrochi yn disgrifio pob safle a'i ddalgylch cyfagos. Bydd yn nodi'r afonydd a'r nentydd sy'n bwydo i'r dyfroedd ymdrochi, yn amlinellu ffynonellau llygredd posibl a'r mesurau sydd ar waith i'w rheoli, ac yn darparu gwybodaeth am gydymffurfiaeth â safonau ansawdd dŵr ymdrochi. Bydd CNC yn cydweithio â phartneriaid, gan gynnwys cwmnïau dŵr, y sector amaethyddol ac awdurdodau lleol, i nodi unrhyw broblemau o ran ansawdd dŵr a mynd i'r afael â nhw.

Yn ystod y tymor ymdrochi, rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol sicrhau bod gwybodaeth fanwl am bob dŵr ymdrochi yn cael ei harddangos mewn lleoliad

hygyrch ger y safle. Rhaid i hyn gynnwys canlyniadau monitro cyfredol ac unrhyw wybodaeth am iechyd y cyhoedd sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau.

Ni fydd dynodi dyfroedd ymdrochi yn diwygio, yn newid nac yn disodli unrhyw amddiffyniadau cyfreithiol, rhwymedigaethau na gofynion rheoleiddiol presennol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch yr amgylchedd, cadwraeth a defnydd tir, gan sicrhau bod safonau, dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol cyfredol yn parhau mewn grym llawn. Yn ogystal, bydd unrhyw gyfrifoldebau presennol unigolion, endidau a chyrff corfforaethol preifat a chyhoeddus, fel y'u sefydlwyd o dan y gyfraith berthnasol, yn parhau heb eu newid gan y dynodiad.

Bydd tymor ymdrochi Cymru yn cael ei ymestyn am bythefnos, gan ddechrau ar 1 Mai 2026. Bydd cyfathrebiadau'n cael eu paratoi i sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael gwybod am y newid hwn.

Mae'r swyddogion yn nodi bod nifer o ymatebwyr wedi awgrymu y dylai'r tymor ymdrochi fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ystyried estyniad pellach.

## Atodiad A - Rhestr o'r Sefydliadau a Ymatebodd

Nid yw'r rhestr hon o sefydliadau a ymatebodd yn hollgynhwysfawr ac mae'n cynnwys y rhai a ddewisodd ddatgan cysylltiad sefydliadol yn unig. Efallai bod rhai ymatebion wedi'u cyflwyno gan unigolion sy'n aelodau o'r sefydliadau hyn ac felly efallai nad ydynt yn cynrychioli safbwynt swyddogol y sefydliad. Mae'r rhestr hefyd yn eithrio ymatebwyr a ofynnodd am gyfrinachedd neu na wnaethant roi enw sefydliad.

- Achubwyr Bywyd y Rhws
- Surfers Against Sewage
- Tîm Rheoli Llygredd Cyngor Abertawe
- Cyfeillion y Ddaear y Barri a'r Fro
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Dŵr Cymru
- Nifer o ymatebion unigol